Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

## Crynodeb o Fil Drafft Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)



**“Rhoi anghenion dysgwyr wrth wraidd y system addysg, drwy sefydlu llwybrau dysgu a gyrfa clir a hyblyg.”**

**Athro Ellen Hazelkorn**
Athro a Chyfarwyddwr Emeritws
Uned Ymchwil Polisi Addysg Uwch (UYPAU)
Sefydliad Technoleg Dulyn (Iwerddon)

# Pam fod Llywodraeth Cymru’n bwriadu cyflwyno Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) Drafft?

Yn 2016, gofynnodd Llywodraeth Cymru i’r Athro Ellen Hazelkorn gynnal adolygiad o Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) yng Nghymru. Argymhellodd yr adroddiad y dylid sefydlu corff hyd braich newydd a noddir i fod yn gyfrifol am AHO ac ymchwil yng Nghymru.

Nododd yr Athro Hazelkorn nifer o heriau yn y sector AHO yr oedd angen mynd i’r afael â nhw. Mae’r rhain yn cynnwys dyblygu o ran darpariaeth, cymhlethdod diangen a diffyg cydgysylltu rhwng lefelau gwahanol o addysg a darparwyr hyfforddiant. Amlinellodd yr Athro Hazelkorn achos dros newid y ffordd y mae AHO yn cael ei oruchwylio yng Nghymru, er mwyn bodloni heriau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yr 21ain ganrif.

Mae’r heriau rydym yn eu hwynebu o ganlyniad i Covid-19 yn golygu bod y Prif Weinidog a Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, wedi cytuno’n anfoddog i ohirio cyflwyno’r Bil gerbron y Senedd. Serch hynny, mae’r diwygiadau’n parhau’n flaenoriaeth uchel i’r Llywodraeth hon. I’r perwyl hwn, rydym yn cyhoeddi Bil drafft er mwyn sicrhau ein bod yn casglu sylwadau gymaint o bobl â phosibl ar y cynigion polisi manwl ac yn asesu effaith lawn y cynigion hynny. Rydym eisiau gwrando ar safbwyntiau ein rhanddeiliaid a chreu deddfwriaeth sy’n gweithio ar gyfer y sector ac sy’n ystyried y cyd-destun y bydd angen i’r sector weithredu o’i fewn yn y dyfodol yn sgil Covid-19.

Mae’r heriau i’n heconomi a’r sector addysg yn sgil Covid-19 yn golygu bod angen y newidiadau a gyflwynir yn y Bil drafft ar fwy o frys ag erioed. Rhaid i ni gydweithio mewn ffordd fwy strategol, cydlynol ac effeithlon i oruchwylio addysg drydyddol ac ymchwil, o dan nawdd un Comisiwn, sydd â swyddogaeth glir i greu system sy’n gweithio i bobl ac economi Cymru. Bydd sefydlu corff newydd yn sylfaen ar gyfer diwygio’r polisi yn y sector addysg drydyddol ymhellach, er mwyn gwireddu gweledigaeth a fydd yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â darparwyr, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill i wneud Cymru’n lle da i ddysgu, ymchwilio ac arloesi.

# Beth mae'r Bil Drafft yn ei gynnig?

## SEFYDLU'R COMISIWN

Mae'r Bil Drafft yn cynnig sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnig diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bwriedir sefydlu'r Comisiwn yn 2023.

Bydd ganddo Fwrdd a Prif Weithredwr. Bydd y Bwrdd yn cynnwys aelodau cynghorol i gynrychioli myfyrwyr a dysgwyr, ymarferwyr addysg drydyddol a staff y Comisiwn ei hun.

## STRATEGAETH

Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau ar gyfer addysg drydyddol, hyfforddiant ac ymchwil yng Nghymru. Wedyn, bydd y Comisiwn yn llunio cynllun strategol, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, a fydd yn amlinellu sut y bydd yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn i annog darparu a chymryd rhan mewn addysg drydyddol a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, bydd yn ddyletswydd arno i hyrwyddo cenhadaeth ddinesig sefydliadau addysg drydyddol, a ddiffinnir yn y Bil Drafft fel gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.



## CYLLID

Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau ac ariannu cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc 16-18 ac oedolion. Bydd hyn yn cynnwys pŵer i gyllido awdurdodau lleol at ddibenion cynnal chweched dosbarth ysgolion prif ffrwd. Bydd gan y Comisiwn hefyd bwerau i gyllido addysg uwch, prentisiaethau, ymchwil ac arloesi, a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol megis darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau. Wrth ddarparu cyllid, gallai fod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru bod y Comisiwn yn rhan o Gytundeb Deilliannau gyda'r cyrff y mae'n eu cyllido. Bydd Cytundeb Deilliannau'n amlinellu sut bydd darparwr yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion yng nghynllun strategol y Comisiwn, a'r nodau cyffredinol ar gyfer y sector addysg drydyddol yng Nghymru.

## GORUCHWYLIO

Bydd gan y Comisiwn nifer o dulliau o reoleiddio darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, gan gynnwys Cytundebau Deilliannau. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gadw cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Bydd angen i ddarparwyr gofrestru er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid grant, ynghyd â chymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru, sy'n ariannu cyrsiau addysg uwch a chynhaliaeth myfyrwyr yn bennaf ar hyn o bryd. Drwy reoliadau, caiff y gofrestr ei rhannu'n gategorïau cofrestru. Bydd gan bob categori amodau, gan gynnwys amodau'n ymwneud ag ansawdd addysg, trefniadau llywodraethiant a rheolaeth sefydliadau, a'u cynaliadwyedd ariannol. Bydd gan y Comisiwn ystod o bwerau i sicrhau bod darparwyr yn parhau i gydymffurfio â'r amodau cofrestru, gan gynnwys pwerau i roi cyngor, i drefnu monitro uwch, i roi cyfarwyddyd ac, yn y pen draw, y pŵer i ddadgofrestru darparwyr. Bydd y pŵer i ddadgofrestru darparwyr ond yn cael ei ddefnyddio pan fetha popeth arall. Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn hefyd i fonitro cyflwr ariannol a chynaliadwyedd y sector addysg drydyddol yng Nghymru, ac adrodd ar hyn yn flynyddol.

## EHANGU MYNEDIAD A CHYFLE

Bydd yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch a ddynodir at ddibenion y swm uwch o gymorth ffioedd dysgu gan Lywodraeth Cymru gyflwyno Cynllun Mynediad a Chyfle i'r Comisiwn i'w gymeradwyo. Bydd Cynlluniau Mynediad a Chyfle, a fydd yn amlinellu sut y bydd darparwr yn gwella cyfranogiad mewn addysg uwch o blith grwpiau a dangynrychiolir, yn amod ar gyfer cofrestru.

## ANSAWDD

Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn i fonitro a hyrwyddo gwelliant yn ansawdd yr addysg drydyddol a ddarperir gan darparwyr cofrestredig ac a gyllidir. Bydd ganddo'r pŵer i ddatblygu a chyhoeddi fframweithiau polisi ar gyfer ansawdd, asesu ansawdd, a datblygiad proffesiynol y gweithlu. Bydd Estyn yn parhau i fod yn gyfrifol am arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac eithrio addysg uwch. Bydd Estyn yn cytuno ar gynllun o arolygiadau â'r Comisiwn, a fydd yn darparu'r cyllid i gynnal arolygiadau a gwaith thematig arall.

Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau bod ansawdd yr addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig yn cael ei asesu. Bydd ganddo'r pŵer i ddirprwyo'r swyddogaeth hon i gorff a ddynodir gan Weinidogion Cymru.



## PRENTISIAETHAU

Mae'r Bil Drafft yn creu diffiniad ar gyfer prentisiaeth Gymreig gymeradwy, a fydd yn gorfod bodloni manyleb a nodir mewn rheoliadau.

Bydd fframweithiau prentisiaethau'n amlinellu'r gofynion ar gyfer cwblhau prentisiaeth mewn galwedigaeth benodol. Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am bob fframwaith prentisiaeth Gymreig gymeradwy a bydd yn ofynnol iddo gyhoeddi cofrestr o'r fframweithiau hyn. Bydd y Comisiwn yn gallu datblygu fframweithiau newydd, neu ddirprwyo'r swyddogaeth hon i gyrff a ddynodir ganddo.

## DIOGELU BUDDIANNAU MYFYRWYR A DYSGWYR

Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr sy'n nodi sut y dylid cynrychioli buddiannau dysgwyr yn nhrefniadau llywodraethiant a rheolaeth darparwyr. Bydd gofyn i ddarparwyr cofrestredig ac a gyllidir ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r cod hwn.

Gall y Comisiwn hefyd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr lunio Cynllun Diogelu Dysgwyr yn amlinellu sut y bydd darparwr yn diogelu buddiannau dysgwyr pe bai amharu ar gwrs neu gwrs yn dod i ben, a sut y gallai darparwyr helpu dysgwyr i drosglwyddo i ddarparwyr eraill.

Mae'r Bil Drafft hefyd yn darparu ar gyfer ymestyn y cynllun cwynion myfyrwyr ar gyfer y sector addysg uwch i'r sector addysg bellach.

## DATA A GWYBODAETH

Mae'r Bil Drafft yn amlinellu pwerau a dyletswyddau'r Comisiwn a chyrff perthnasol eraill mewn perthynas â rhannu data a gwybodaeth. Yn benodol, mae'r Bil Drafft yn rhoi pŵer i'r Comisiwn ofyn am ddata gan UCAS o'r broses o gyflwyno cais i dderbyn cynnig, gan ddilyn pwerau tebyg a gyflwynwyd yn Lloegr yn 2017.

## NEWIDIADAU MAWR ERAILL

Mae'r Bil Drafft yn creu swyddogaethau i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn mewn perthynas â chwricwlwm lleol ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, gan ddiwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn y maes hwn yn sgil y Bil arfaethedig ar gyfer y cwricwlwm cyn-16.

Mae'r Bil Drafft hefyd yn creu pwerau i'r Comisiwn, lle bo'n briodol, gyfarwyddo awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau ar gyfer ad-drefnu dosbarthiadau chwech. Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i gymeradwyo unrhyw gynlluniau ad-drefnu.



# Beth fydd yn digwydd ar ôl deddfu Bil yn y dyfodol?

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn 2023, a diddymu CCAUC ar yr un pryd. Bydd cadeirydd, prif weithredwr a chorff llywodraethu'r Comisiwn newydd yn cael eu penodi yn ystod y cyfnod hwn.

Byddai'r is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol o dan y Bil Drafft yn cael ei chyflwyno gerbron y Senedd yn dilyn Cydsyniad Brenhinol a chyn i'r Comisiwn gael ei sefydlu.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â rhanddeiliaid a'r Bwrdd Newid Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i ddatblygu a chytuno ar weledigaeth ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru.

**Rhagor o wybodaeth**

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r Bil Drafft Addysg Drydyddol ac Ymchwil Drafft ac ni fwriedir iddi fod yn gyflawn. Ceir rhagor o fanylion am y Bil Drafft yn y Memorandwm Esboniadol, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil Drafft. Lluniwyd y Bil Drafft cyn y pandemig Covid-19. Bydd cyhoeddi fersiwn Drafft yn gyfle i ni ystyried y cynigion polisi manwl ac effaith lawn y cynigion hyn, gwrando ar sylwadau ein rhanddeiliaid a chreu deddfwriaeth sy'n gweithio ar gyfer y sector ac yn cymryd i ystyriaeth y cyd-destun y bydd angen i'r sector weithredu ynddo yn y dyfodol o ganlyniad i Covid-19.





# Geirfa

**Cynllun Mynediad a Chyfle**
Cynllun a gaiff ei lunio gan ddarparwr addysg drydyddol cofrestredig, a'i gymeradwyo gan y Comisiwn, sy'n amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i ehangu mynediad a sicrhau cyfleoedd cyfartal mewn addysg uwch. Mae'n disodli Cynlluniau Ffioedd a Mynediad sefydliadau addysg uwch, a oruchwylir gan CCAUC ar hyn o bryd.

**Fframwaith Prentisiaeth**
Amlinelliad o brentisiaeth ar gyfer galwedigaeth benodol, sy'n amlinellu'r hyfforddiant, y trefniadau asesu a'r gofynion o ran cymwysterau ar gyfer cwblhau'r brentisiaeth.

**Manyleb Prentisiaeth**
Y Fanyleb Safonau Gofynnol ar gyfer Prentisiaethau yng Nghymru, sy'n amlinellu'r safonau gofynnol sydd angen eu bodloni ar gyfer prentisiaeth Gymreig gymeradwy, a bennir drwy reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

**Cod Ymgysylltu â Dysgwyr**
Datganiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn yn amlinellu'r egwyddorion a'r disgwyliadau ar gyfer sicrhau bod buddiannau myfyrwyr a dysgwyr yn cael eu cynrychioli'n briodol yn nhrefniadau llywodraethiant a rheolaeth darparwyr.

**Cynllun Diogelu Dysgwyr**
Cynllun a gaiff ei lunio gan ddarparwyr addysg drydyddol, a'i gymeradwyo gan y Comisiwn, sy'n amlinellu'r camau y bydd darparwr yn eu cymryd i ddiogelu myfyrwyr a dysgwyr pa bai amharu ar gwrs neu gwrs yn dod i ben, a sut bydd yn cefnogi myfyrwyr sydd eisiau trosglwyddo i gwrs arall.

**Cytundeb Deilliannau**
Cytundeb rhwng y Comisiwn a chorff a gyllidir, fel rhan o delerau ac amodau cyllid, sy'n amlinellu sut bydd y corff yn defnyddio ei gyllid i gyfrannu at gyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yng nghynllun strategol y Comisiwn.

**Cofrestr o Ddarparwyr Addysg Drydyddol**
Dull o reoleiddio darparwyr addysg drydyddol sy'n dymuno bod yn gymwys ar gyfer mathau penodol o grantiau a chyllid cymorth myfyrwyr.

**Amodau Cofrestru**
Y meini prawf y mae'n rhaid i ddarparwyr sydd wedi cofrestru â'r Comisiwn gydymffurfio â nhw er mwyn dod yn ddarparwyr cofrestredig a pharhau'n ddarparwyr cofrestredig.